CYNLLUN GRANT CRËWR NEWID IFANC

Helo, Croeso i'r Pecyn Gwybodaeth yma! Dyma bopeth mae angen i chi ei wybod am y cynllun Grant Crëwr Newid Ifanc. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni yn ChampionsofWales@plan-uk.org. Rwy'n methu aros i weld eich syniadau, Pob lwc!

Lizzy
Cydlynydd Prosiect Pencampwyr Cymru

TIPYN AM PLAN UK A RHAGLEN PENCAMPWYR CYMRU

Mae Plan International UK yn elusen plant fyd-eang. Rydyn ni'n gweithio i roi'r un siawns mewn bywyd i bob plentyn. Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod hawliau merched o gwmpas y byd yn cael eu parchu a bod lleisiau pobl ifanc a'r bobl sy'n gweithio gyda nhw yn ganolog i benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Lansion ni ein gwaith hawliau merched yn y DU yn ôl yn 2016 a dechreuon ni gyflwyno Rhaglen Pencampwyr Cymru yn 2019.

Pencampwyr Cymru

Nod prosiect Pencampwyr Cymru ydy meithrin sgiliau a hyder pobl ifanc i ddod yn bencampwyr cydraddoldeb yn eu cymunedau. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn dwy ffordd, yn gyntaf drwy gyflwyno rhaglen ddysgu sy'n sôn am bynciau a materion fel hawliau merched, bod yn bendant, trais sy'n seiliedig ar rywedd, sut i gadw'n ddiogel yn y gymuned a sut i fod yn eiriolwr dros gydraddoldeb rhywiol. Rydyn ni'n gweithio gyda phedwar corff partner sy'n cyflwyno hyn ym Mhen-y-bont, Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, ac Abertawe. Os hoffech chi fod yn rhan o elfen yma'r rhaglen, mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan neu e-bostiwch ChampionsofWales@plan-uk.org

Yr ail ffordd rydyn ni'n annog pobl ifanc i hyrwyddo newid yn eu cymunedau ydy darparu arian i'w helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn eu hardal leol.

Yn anffodus, rydyn ni'n gwybod bod merched a phobl ifanc yn wynebu nifer o heriau sy'n gallu eu dal yn ôl yn yr ysgol, gyrfa, bywyd bob dydd ac yn eu hatal rhag jest bod pwy ydyn nhw. Os ydych chi eisiau deall mwy am rai o'r materion yma, yna rydyn ni wedi gwneud tipyn o ymchwil i beth sy'n digwydd yng Nghymru y gallwch chi ei darllen yma.

Os ydy gwybod am yr heriau yma'n eich ysbrydoli i wneud gwahaniaeth, yna rydyn ni eisiau clywed gennych chi! Mae llawer o wahanol ffyrdd y gallwch chi helpu i daclo anghydraddoldeb rhywiol, efallai eich bod chi'n gwneud rhywbeth yn barod.

Bydd y pecyn grant yma'n rhoi gwybodaeth fanylach i chi am sut, pwy a beth fydd Plan International UK yn ei ariannu yn ogystal â phroses grantiau ac ymgeisio fanwl.

PWY FYDDWN NI'N ARIANNU?

Mae gennyn ni ddiddordeb arbennig mewn syniadau sy'n:

- ☑ Creu newid yn y gymuned
- ☑ Gweithio i godi lleisiau menywod ifanc a merched o grwpiau wedi'u hymylu
- ☑ Dod oddi wrth fenywod ifanc a merched sy'n ystyried eu hun yn rhan o'r cymunedau LGBTQI+, BAME, Sipsi Roma, gofalwyr ifanc, pobl ifanc anabl, goroeswyr neu unrhyw grwpiau sy'n dioddef gorthrwm
- ☑ Grymuso pobl ifanc a merched i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywiol yn eu cymuned
- ☑ Codi ymwybyddiaeth o broblemau mae merched a menywod ifanc yn wynebu yn y gymuned
- ☑ Gweithredu cymdeithasol neu ymgyrchoedd am hawliau merched a chydraddoldeb rhywiol

Fyddwn ni ddim yn ariannu:

- ☒ Ffioedd/bwrsarïau myfyrwyr
- ☒ Prosiectau sy'n digwydd tu allan i Gymru
- ☒ Cyflog am y prosiect – fyddwn ni ddim yn talu am eich amser i redeg hyn ond byddwn ni yn talu costau'r prosiect
- ☒ Ymgyrchoedd unigolion am swyddi h.y. sefyll fel Aelod o'r Senedd, Llywydd Undeb Myfyrwyr ac ati
- ☒ Prosiectau/syniadau sy'n anghyson â gwerthoedd Plan UK

I wneud cais dylech chi fod:

- ☑ Rhwng 13-25 blwydd oed
- ☑ I'r rhai sydd dan 16, mae'n rhaid i chi gael oedolyn cyfrifol ar y prosiect a fydd yn derbyn arian i'w cyfrif banc nhw
- ☑ Rhaid i chi fyw a chyflwyno'r prosiect yng Nghymru
- ☑ Rhaid bod gennych chi ganolwr – rhywun sy'n gallu cefnogi'ch cais. Rhaid i'r person yma fod yn weithiwr proffesiynol dros 18 oed.

EIN GRANTIAU!

Mae dau fath o grant gallwch chi wneud cais amdano, sef:

Daearyddiaeth	**Cymru**
Math o grant	**Level 1 – Have a go!**
Swm	**Hyd at £1000**

Daearyddiaeth	**Cymru**
Math o grant	**Level 2 – Go AGAIN!**
Swm	**Hyd at £2000**

Grant Have a go!

Gallwch chi wneud cais am y grant yma os

- Oes gennych chi syniad sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn eich cymuned chi
- Os ydych chi eisiau dyrchafu lleisiau menywod ifanc a merched yn y gymuned
- Codi ymwybyddiaeth o faterion mae menywod a merched yn eu hwynebu yn eich cymuned
- Rhedeg ymgyrch i wneud newid yn eich cymuned
- Rhedeg digwyddiad neu brosiect gweithredu cymdeithasol sy'n cefnogi hawliau menywod ifanc a merched

Pwy allech chi fod?

- Rhywun sydd â syniad ac eisiau ei roi ar ben y ffordd
- Mae eich syniad yn ei ffurf gynnar a hoffech chi roi cynnig arno fe
- Mae eich syniad yn y cyfnod cynllunio
- Mae angen cymorth arbenigwyr arnoch chi i roi eich syniad chi ar waith
- Rydych chi'n angerddol am hawliau merched

Grant Go AGAIN!

Gallwch chi wneud cais am y grant yma os

- Rydych chi eisiau tyfu'ch syniad a'r camau rydych chi wedi eu cymryd yn barod sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn eich cymuned
- Rydych chi eisiau dyrchafu lleisiau menywod ifanc a merched yn y gymuned
- Rydych chi eisiau datblygu'ch prosiect/ymgyrch neu weithredu cymdeithasol yn rhywbeth mwy o faint
- Rydych chi wedi gwneud rhywbeth llwyddiannus yn barod i gefnogi menywod ifanc a merched yn y gymuned ac eisiau ei dyfu

Pwy allech chi fod?

- Rhywun sydd wedi profi a rhoi cynnig ar eich syniad ac yn dymuno ei dyfu neu ei atgynhyrchu mewn lleoliad arall
- Rydych chi'n angerddol am hawliau merched
- Rydych chi angen cymorth i dyfu'ch syniad a chodi ei broffil
- Grŵp prosiectau/Syniadau sy'n gorthrymu

Beth ydyn ni'n cynnig i chi?

1. Arian i redeg prosiect yn eich cymuned i gefnogi menywod ifanc a merched.

2. Rhaglen fentora ddewisol gyda menywod proffesiynol i'ch cefnogi chi drwy gydol y prosiect. Bydd gennych chi becyn cymorth wedi ei deilwra i helpu gyda'ch holl anghenion ac i feithrin sgiliau a gwybodaeth yn y meysydd sydd o ddiddordeb i chi. Bydd yn edrych yn grêt ar eich CV hefyd!

3. Bydd Plan International UK yn darparu hyfforddiant dewisol am lawer o feysydd fel ymgyrchu ac eiriolaeth, hawliau merched, rheoli arian ac unrhyw beth arall rydych chi'n ei nodi sy'n gallu helpu gyda'ch prosiect chi.

4. Digwyddiadau a chyfryngau i godi ymwybyddiaeth o'ch prosiect ac i ddathlu'r gwaith rydych chi'n ei wneud.

Beth am eich ymrwymiadau chi?

Os ydych chi'n llwyddiannus, bydd angen i chi ymrwymo i nifer o bethau.

1. Bydd angen i chi fynychu tri gweithdy gorfodol. Gweithdy cyflwyno, gweithdy hanner ffordd, a gweithdy dathlu terfynol. Yn y gweithdai yma byddwch chi'n cwrdd â phobl ifanc eraill sy'n rhedeg prosiectau, yn dysgu sut i reoli'ch arian a byddwn ni'n mynd trwy bopeth mae angen i chi ei wybod.

2. Cyflenwi'ch prosiect o fewn 6 mis

3. Darparu dwy ddalen cyllid hawdd i ddangos sut gwarioch chi eich arian. Un hanner ffordd trwodd ac un ar ddiwedd y prosiect.

4. Mynychu ein digwyddiad dathlu i arddangos eich prosiectau gwych a dathlu gyda'ch cymheiriaid, staff Plan, Aelodau Senedd Cymru, a thrydydd sector Cymru.

Mae Plan International UK wedi ymrwymo i gefnogi pawb sy'n llwyddo i gael grant yn ystod cyfnod yr arian ac yn edrych ymlaen at greu cysylltiadau gweithio cryf ag ymgeiswyr. Y disgwyl ydy bod derbynwyr grant yn onest ac yn agored yn ystod y broses grant. Mae diffygion neu heriau sy'n cael eu hwynebu yn gallu, a dylen nhw, gael eu trafod gyda Plan International UK i sicrhau bod unrhyw gefnogaeth sydd angen yn cael ei darparu mewn ffordd amserol.

AWGRYMIADAU GORAU AM LENWI'CH FFURFLEN GAIS!

Beth fydd ei angen arnoch chi cyn dechrau:

- Eich syniad a beth rydych chi eisiau ei gyflawni
- Geirda gan rywum sy'n eich adnabod yn dda ond sydd ddim yn ffrind neu'n aelod o'ch teulu. h.y. athro/athrawes/darlithydd, cyflogwr, gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cymdeithasol neu rywun tebyg
- Caniatâd oedolyn cyfrifol os ydych chi dan 16 oed
- Syniad o faint bydd eich prosiect yn costio
- Mynediad i'r rhyngrwyd a ffurflen ar-lein



How to apply

Ewch i'r **wefan yma** a llenwi'r ffurflen ar-lein NEU e-bostio **ChampionsofWales@plan-uk.org**

Os oes angen unrhyw gymorth neu gefnogaeth arnoch chi i lenwi'ch cais, cysylltwch â **lizzy.fauvel@plan-uk.org**

Y dyddiad cau am geisiadau ydy dydd **Gwener 16 Ebrill am 5pm**

Y cwestiynau byddwn ni'n eu gofyn i chi

Enw'r Prosiect

Meddyliwch am rywbeth difyr a grymuso!

Dwedwch wrthyn ni amdanoch chi

Yn yr adran yma dwedwch wrthyn ni beth rydych chi'n angerddol amdano fe a pham? Hefyd gallech chi adael i ni wybod pam rydych chi wedi gwneud cais am y grant yma a beth sy'n eich gyrru i greu newid.

Dwedwch wrthyn ni am eich syniad

Yn yr adran yma hoffen ni i chi ddweud wrthyn ni am y peth rydych chi eisiau newid, a'ch syniad chi am sut i'w newid.

Efallai eich bod yn flin bod dim tîm rygbi merched yn eich ysgol, bod lleisiau merched ddim yn cael eu gweld neu eu clywed mewn papurau newydd lleol, nad ydych chi byth yn cael clywed gan fenywod ysbrydoledig mewn gyrfaoedd sy'n draddodiadol wryw fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Byddai'n well byth petach chi'n gallu rhoi tystiolaeth o'r broblem

Efallai eich bod chi wedi gweld rhai ffeithiau neu ffigurau, neu drwy gynnal eich mân-ymchwil eich hun drwy siarad â'r bobl rydych chi eisiau gweithio gyda nhw.

Beth fyddwch chi'n gwneud i newid pethau?

Efallai byddwch chi am sefydlu tîm rygbi merched yn eich ysgol, efallai eich bod chi eisiau codi ymwybyddiaeth am fater sy'n effeithio ar fenywod a merched yn eich cymuned chi drwy gynnal nifer o ddigwyddiadau. Efallai byddwch chi'n creu arddangosfa gelf sy'n hybu cydraddoldeb rhywiol neu efallai eich bod chi eisiau gwneud newid mwy gwleidyddol ac ymgyrchu yn eich ysgol, i'ch llywodraeth leol neu hyd yn oed yn y Senedd.

Sut fyddwch chi'n mesur ei lwyddiant?

Fyddwch chi'n creu fideo am yr ymgyrch, oes rhywbeth wedi newid yn eich cymuned? Ydych chi'n mynd i gyfweld â menywod ifanc a merched sydd wedi elwa ar eich prosiect? Cawsoch chi dîm rygbi yn yr ysgol? Fydd gennych chi niferoedd o bobl yn cymryd rhan yn eich prosiect, efallai nifer yr enwau ar ddeiseb, nifer y bobl a fynychodd eich digwyddiad neu nifer y 'likes' ac ail-drydarau ar gyfryngau cymdeithasol.

Ydych chi'n mynd i weithio gydag unrhyw un arall yn eich cymuned? Efallai eich bod chi'n siarad â merched a menywod ifanc am atebion? Os felly, beth ydych chi'n meddwl gallai'ch prosiect ei gyflawni a sut fydd yn gwneud hynny? Pwy, os rhywun, sy'n mynd i'ch helpu?

Dwedwch wrthyn ni am bwy, ble, sut

Pwy fyddwch chi'n ceisio cyrraedd / i bwy fydd y prosiect?

Efallai eich ffrindiau, eich dosbarth, eich ysgol, neu eich cymuned gyfan

Dyddiad dechrau a gorffen, ardal ddaearyddol, lleoliad

Ydych chi'n gwneud newid yn eich clwb ieuenctid neu ysgol? Efallai eich bod chi'n mynd â'r prosiect i mewn i'r gymuned?

Ydych chi'n gwybod faint o bobl rydych chi eisiau iddyn nhw gymryd rhan yn eich prosiect neu elwa arno fe?

Efallai bod gennych chi syniad o faint o ferched a menywod ifanc hoffech chi eu helpu. Ydych chi eisiau grŵp craidd neu i wneud eich prosiect ar agor i bawb yn y gymuned? Ydych chi'n cynnwys pob rhywedd yn eich prosiect? Ydy hi'n bwysig dod â dynion a bechgyn i mewn i'ch prosiect i gefnogi cydraddoldeb rhywiol?

Neidiwch i mewn i'ch peiriant amser!

Mae'n 11 Hydref, 2021 – sydd efyd yn cael ei alw'n Ddiwrnod Rhyngwladol y Ferch a bydd Plan UK yn dathlu trwy ddod â derbynwyr grant, mentoriaid, ac aelodau'r gymuned ynghyd i rannu sut mae'r prosiectau wedi creu newid positif i ferched yng Nghymru. Dychmygwch eich bod chi yno – pa bigion fyddech chi'n eu rhannu â'r gynulleidfa ar ôl 6 mis o gyflenwi'ch prosiect?

Sut ydych chi wedi cipio'ch prosiect? Wnaethoch chi gynnal digwyddiad, os felly wnaethoch chi greu fideo allech chi ei ddangos yn y dathliad? Wnaethoch chi greu pod-lediad gallech chi ei hyrwyddo neu rannu tipyn o'i gynnwys? Wnaethoch chi greu darn o gelf gallech chi ei ddangos neu ddylunio gwefan, ap neu ymgyrch gallwch chi roi enghraifft ohono neu ddangos i ni sut mae wedi effeithio ar eich cymuned? Byddwch mor greadigol ag y gallwch chi. Neu beth am roi araith neu ddod ag aelodau o'r gymuned rydych chi wedi eu helpu a'u cefnogi?

Mae arnon ni angen tipyn o gyllideb gennych chi, mae enghraifft isod

Llogi lleoliad am 2 ddiwrnod = £300
Arlwyo am 20 o bobl = £200
Deunyddiau = £100
Offer, meicroffôn, camera = £800

Awgrymiadau defnyddiol!

1. Dwedwch wrthyn ni gymaint ag y gallwch chi am eich syniad. Dwedwch wrthyn ni beth ydy'r broblem, sut rydych chi'n delio â'r broblem, pwy fydd hyn yn helpu a sut fydd yn helpu.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n esbonio sut mae hyn yn helpu menywod ifanc a merched yn eich cymuned. Cadwch i feddwl am sut bydd hyn yn cefnogi cydraddoldeb rhywiol!
3. Byddwch yn ddewr, byddwch yn greadigol, byddwch yn arloesol.
4. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi ganiatâd canolwyr cyn llenwi'r ffurflen.
5. Gallwch chi bob amser ysgrifennu'ch atebion mewn dogfen Word a'u gludo nhw i mewn i'r ffurflen pan fyddwch chi'n hapus gyda nhw.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Oes rhaid i mi wneud cais am y swm llawn?

Nac oes, mae'r grantiau yma am hyd at £1000 neu hyd at £2000, peidiwch â theimlo bod rhaid i chi wneud cais am y swm llawn os nad oes ei angen arnoch chi. Mae'n well i chi beidio!

2. Os nad ydw i'n gwario'r arian i gyd, fydd rhaid i mi ei roi yn ôl?

Byddwn ni'n gweithio gyda chi i'ch annog i wario'r arian i gyd, fel nad oes rhaid i chi ei roi yn ôl. Byddwn ni ddim yn gofyn am unrhyw beth yn ôl sy'n llai na £250.

3. Os ydw i'n prynu offer am fy mhrosiect, oes rhaid i mi ei roi yn ôl i Plan International UK?

Nac oes, os ydych chi'n prynu offer byddwch chi'n cael ei gadw. Ein disgwyl ydy y bydd yn eich helpu i barhau eich gwaith a gadael etifeddiaeth i chi. Ond, os nad ydych chi wedi defnyddio offer a gafodd ei brynu am y prosiect, yna mae'n bosibl y byddwnni'n gofyn amdano.

4. Oes rhaid i mi gadw gwybodaeth ariannol a derbynebau?

Oes, ond peidiwch â phoeni mae wir yn syml! Rydyn ni wedi creu taenlen i chi ei defnyddio a byddwn ni'n dangos i chi sut i'w llenwi yn ystod y gweithdy cyflwyno. Bydd ond angen i chi gadw derbynebau am am bethau dros £50 a brynwch chi. Os collwch chi ambell un peidiwch â phoeni, ond mae cadw trefn ar hyn yn sgil da!

5. Pa mor aml fydd rhaid i mi lenwi'r daenlen?

Dim ond dwywaith!

6. Pryd fydda i'n cael yr arian?

Bydd Plan UK yn gweithio gyda chi i greu telerau ac amodau a fydd yn cynnwys pennu cynllun i'ch talu. Hoffen ni eich talu mewn dau randaliad, yn gyntaf ar ddechrau'r prosiect ym Mai a thaliad arall hanner ffordd trwodd. Bydd angen eich gwybodaeth ariannol gyntaf arnon ni cyn rhoi'r rhoi ail hanner yr arian, ond peidiwch â phoeni byddwn ni'n gweithio trwy hyn gyda chi!

7. Sut mae'r mentora yn gweithio?

Rydyn ni mor gyffrous am allu cynnig hyn i chi ar ben y cynllun grant. Rydyn ni'n rhoi proffiliau ein mentoriaid i chi a gallwch chi ddewis pwy rydych chi'n meddwl fydd orau i'ch cefnogi chi gyda'ch prosiect, a'ch dyfodol. Does dim gwarant y cewch chi'r mentor yna, ond byddwn ni'n gwneud ein gorau. Yna byddwch chi a'ch mentor yn penderfynu'r ffyrdd gorau hoffech chi weithio gyda'ch gilydd, fel cwrdd yn wythnosol, yn fisol, neu bob pythefnos efallai. Mae mentoriaid yn gallu helpu i feithrin sgiliau, gwybodaeth, a hyder mewn meysydd rydych chi'n angerddol amdanyn nhw ac yr hoffech chi eu datblygu! Mae hyn yn opsiynol, ond bydden ni'n argymell yn gryf manteisio arno.

8. Beth ydy'r amserlen?

24 Mawrth
Ceisiadau'n Agor

16 Ebrill
Dyddiad Cau am Geisiadau

Wythnos sy'n dechrau 19 Ebrill
Byddwn ni'n gadael i chi wybod os ydych chi wedi bod yn llwyddiannus

Wythnos sy'n dechrau 26 Ebrill
Gweithdy Croeso

Wythnos sy'n dechrau 10 Mai
Gweithdy Mentora

17 Mai
Derbyn eich Taliad cyntaf

Gorffennaf
Gweithdy hanner ffordd

Gorffennaf
Ail daliad

11 Hydref
Diwrnod Rhyngwladol y Ferch a digwyddiad Dathlu Prosiectau

Plan International UK
Finsgate,
5-7 Cranwood Street,
London,
EC1V 9LH

www.plan-uk.org
ChampionsofWales@plan-uk.org
@PlanUK
T: 0300 777 9777
© Plan International UK

Registered charity no: 276035